GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Apwyntiad Delweddu Offthalmig

# Gwybodaeth i Gleifion

---

**Pam fod angen yr apwyntiad heddiw**

Mae atgyfeiriad wedi'i wneud ar eich cyfer ac mae gofyn i chi ddod i'r clinig delweddu offthalmig heddiw; efallai bod yr atgyfeiriad wedi'i wneud gan eich optegydd, eich Meddyg Teulu neu Sgrinio Diabetes. Sylwch os gwelwch yn dda: Os ydych eisoes o dan ofal ymgynghorydd offthalmig, efallai eich bod wedi derbyn yr apwyntiad hwn fel rhan o'ch trefniadau monitro neu driniaeth.

**Pa brofion sydd wedi cael eu gwneud heddiw?**

Mae ffotograffydd offthalmig wedi gwneud prawf craffter y golwg er mwyn edrych ar eich golwg.
Mae'r ffotograffydd hefyd wedi cymryd lluniau a sganiau maes eang. Mae'r math hyn o ddelweddu yn ychwanegol i'r delweddau sydd wedi eu cymryd gan eich optegydd lleol neu gan y gwasanaethau sgrinio'r llygad fel rhan o ymchwiliad parhaus.

***Cofiwch na all y ffotograffydd rhoi gwybod i chi am ganfyddiadau'ch delweddau na rhoi gwybodaeth i chi am unrhyw bryderon o ran iechyd eich llygaid – os ydych yn cael unrhyw broblemau, cysylltwch â'ch optegydd i gael cyngor.***
***Rydych hefyd wedi cael cais i lenwi holiadur – mae hyn er mwyn sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf o ran eich hanes meddygol.***

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr holl wybodaeth sydd wedi'i chasglu heddiw'n cael ei hadolygu gan arbenigwr y llygad. Bydd y canlyniadau'n cael eu hanfon yn uniongyrchol atoch drwy lythyr, a bydd y llythyr yn cynnwys gwybodaeth am y camau nesaf o ran eich gofal. Efallai y bydd hyn yn cynnwys ail-wneud profion a delweddu at ddibenion monitro yn nes ymlaen.

***Ar hyn o bryd, nid oes amserlen ar gyfer derbyn eich canlyniadau, ond bydd arbenigwr y llygaid yn ysgrifennu atoch maes o law. Mae'n ddrwg gennym am yr anghyfleustra hyn ac rydym yn gwerthfawrogi eich amynedd. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â 01495 765 186.***

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English**